# Hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol

## Hawliau a disgwyliadau o ran dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr system neu gynghorwyr sy’n gweithio mewn sefydliadau haen ganol i gefnogi ysgolion neu leoliadau

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr systemau neu gynghorwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| 1. Fel arweinydd system neu gynghorydd mae gen i hawl i daith dysgu proffesiynol unigol a gefnogir gan staff penodol fy sefydliad, rhanbarthol neu genedlaethol. | Cynllun dysgu proffesiynol ar gyfer y flwyddyn i ddod sydd:<br>• o fudd i gydweithwyr yn y sefydliad lle rydych yn gweithio ac sy’n bodloni eu hanghenion<br>• yn ymestyn yn gyson eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth mewn perthynas â’ch rôl bresennol<br>• yn rhoi ymreolaeth ichi ddechrau ystod o weithgareddau sy’n cefnogi’r rhwydweithiau ehangach rydych yn rhan ohonynt, ymwneud â nhw a chyfrannu atynt | Cynllun dysgu proffesiynol bras ar gyfer y 2 i 5 mlynedd nesaf i gefnogi eich llwybr gyrfa i’r dyfodol, a fydd:<br>• o fudd i ddysgwyr a staff eraill ar draws y system ehangach (yn lleol, yn rhanbarthol a/neu yn genedlaethol)<br>• yn ymestyn eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth ar gyfer rolau yn y dyfodol<br>• yn cynnig cyfleoedd i gyfrannu at weithgarwch y system ehangach, arloesedd a chydweithio, yn ogystal â chefnogi a/neu arwain gwaith o’r fath |
| 1. Fel arweinydd system neu gynghorydd mae disgwyl i mi fynd ati i ddatblygu fy nhaith dysgu proffesiynol a fyfyrio arni, gyda chefnogaeth staff penodol fy sefydliad, rhanbarthol neu genedlaethol. | • Ymrwymo i fanteisio ar eich cynllun dysgu proffesiynol a gweithgareddau cysylltiedig, a myfyrio arni.<br>• Ystyried eich cynnydd eich hun ar eich taith ddysgu gan ddefnyddio'r safonau proffesiynol priodol i nodi anghenion dysgu proffesiynol. | • Defnyddio’ch cofnod dysgu proffesiynol i ragweld eich anghenion yn y dyfodol a sbarduno rhagor o ddysgu proffesiynol.<br>• Rhannu’ch myfyrdodau yn eich cofnod dysgu proffesiynol gyda chydweithwyr a staff penodol o bob rhan o’r system ddysgu ehangach er mwyn cefnogi twf proffesiynol a chefnogi’r broses ddysgu mewn ysgolion neu leoliadau. |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr systemau neu gynghorwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| | • Defnyddio cofnod dysgu proffesiynol eich sefydliad i gofnodi eich myfyrdodau ynghylch gweithgareddau a gynhaliwyd. | |
| 2. Fel arweinydd system neu gynghorydd mae gen i hawl i gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn seiliedig ar egwyddorion y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, sy'n cynnwys cyfuniad o ddulliau a chyfleoedd i fyfyrio, ymholi a chydweithio er mwyn dysgu. | • Mynediad at gyfuniad perthnasol o gyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir drwy eich sefydliad, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid penodol eraill fel y bo'n briodol.<br>• Cefnogaeth i wneud gwaith ymholi, mewn perthynas â systemau, i ystod o feysydd blaenoriaeth a nodwyd.<br>• Cydweithio pwrpasol â sefydliadau penodol eraill ar draws y system er mwyn gwella ysgol neu leoliad. | • Cyfrannu at ddarpariaeth dysgu proffesiynol o fewn eich sefydliad a'r tu hwnt i'ch sefydliad, er enghraifft i rannu safbwyntiau ac arferion.<br>• Ymgysylltu â rhaglenni ymholi awdurdodau lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol, a'u cefnogi.<br>• Cydweithio'n bwrpasol ar draws y system genedlaethol a rhyngwladol i wella'r ysgol neu'r lleoliad. |
| 2. Fel arweinydd system neu gynghorydd mae disgwyl i mi:<br>• nodi a mynd ati i fanteisio ar gyfuniad priodol o weithgareddau dysgu proffesiynol<br>• sicrhau bod staff yn mynd ati i fanteisio ar gyfleoedd a sicrhau defnydd cadarnhaol o'r amser a ddyrennir ar gyfer dysgu proffesiynol o fewn fy sefydliad neu fy nhîm ac, os yw'n briodol, | • Cymryd camau rhagweithiol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol a gynllunnir, ac arwain gwaith o'r fath, a chefnogi eraill i fanteisio ar draws eich sefydliad a'r sefydliadau rydych yn eu cefnogi (gan gynnwys ysgolion neu leoliadau lle mae hyn yn berthnasol i'ch rôl).<br>• Cymryd camau rhagweithiol i gydweithio ag eraill yn eich sefydliad i hyrwyddo'r arfer o ddysgu oddi | • Bod yn ymwybodol o weithgareddau dysgu proffesiynol pellach sydd ar gael ar draws y system a sicrhau defnydd priodol ohonynt.<br>• Cymryd rhan mewn sesiynau dysgu proffesiynol ar y cyd neu weithgarwch hyfforddiant mewn swydd, ar draws eich rhwydwaith o ysgolion neu leoliadau (lle bo'n briodol), a'u harwain.<br>• Sicrhau bod gwerthuso dysgu proffesiynol yn rhan annatod o brosesau sefydliad, ysgol neu leoliad, a |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr systemau neu gynghorwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| yn yr ysgolion neu'r lleoliadau rwy'n eu cefnogi | wrth eich gilydd, ac arwain gwaith o'r fath.<br>• Defnyddio'ch cofnod dysgu proffesiynol i ystyried eich datblygiad mewn perthynas â'r safonau priodol a mynd ati i ymholi er mwyn gwella'r arferion sy'n benodol i'ch rôl. | chydweithio ag eraill er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth. |
| 3. Fel arweinydd system neu gynghorydd mae gen i hawl i:<br>• weithio mewn sefydliad sy'n ystyried ei hun yn sefydliad sy'n dysgu<br>• gweithio mewn sefydliad sy'n myfyrio yn feirniadol ar y safonau proffesiynol priodol er mwyn gwella profiadau dysgu proffesiynol i bawb | • Gweithio mewn sefydliad sy'n defnyddio'n fyfyriol arolwg sefydliad sy'n dysgu ac yn ymateb yn unol â hynny.<br>• Defnyddio'r safonau proffesiynol priodol i fyfyrio ar weithgarwch dysgu proffesiynol a'i gofnodi er mwyn bodloni anghenion datblygu. | • Mae arweinwyr y sefydliad yn deall rôl dysgu proffesiynol o fewn sefydliad sy'n dysgu, ac yn creu ethos ac amgylchedd lle rhoddir gwerth ar ddysgu proffesiynol a lle caiff yr holl staff gyfleoedd i fanteisio ar hyn.<br>• Cydgyfrifoldeb dros ddatblygu'n barhaus fel sefydliad sy'n dysgu drwy gynllun datblygu busnes sy'n seiliedig ar ddefnydd hunanfeirniadol o hunanwerthuso, ymholi ac arolwg sefydliad sy'n dysgu.<br>• Defnyddio safonau proffesiynol fel sail i gydweithio o fewn y sefydliad ac ar draws sefydliadau er mwyn hyrwyddo gwelliant ac arloesedd. |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr systemau neu gynghorwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| 3. Fel arweinydd system neu gynghorydd mae disgwyl i mi ystyried yn rheolaidd:<br>• fy rôl o ran cefnogi fy sefydliad fel sefydliad sy'n dysgu a chefnogi'r ysgolion neu leoliadau rwy'n gweithio gyda hwy i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu (lle bo'n briodol)<br>• fy rôl o ran sicrhau bod defnydd o'r safonau proffesiynol yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygiad proffesiynol i bawb | • Cefnogi'r gwaith o werthuso a datblygu'ch sefydliad a'r ysgolion neu'r lleoliadau rydych yn gweithio gyda nhw, drwy arolwg sefydliadau sy'n dysgu.<br>• Cyfrannu at y defnydd o brosesau sy'n hyrwyddo'r defnydd o safonau proffesiynol priodol er mwyn cefnogi'r arfer o ystyried a datblygu.<br>• Ystyried eich nodau gwella mewn perthynas â safonau a mynd ati i annog a chefnogi eraill i ddefnyddio'r safonau proffesiynol er mwyn nodi eu hanghenion dysgu proffesiynol a fydd yn llywio cynnydd proffesiynol. | • Cymryd rhan mewn trafodaethau rheolaidd ar sail yr arolwg sefydliadau sy'n dysgu a hunanwerthusiad er mwyn ystyried sut gall y sefydliad wella fel sefydliad sy'n dysgu.<br>• Herio'ch arferion eich hun mewn perthynas ag arferion effeithiol iawn a pharhaus continwwm y safonau proffesiynol priodol ac annog eraill i wneud yr un fath.<br>• Mynd ati gyda'ch tîm neu ar draws y sefydliad i fyfyrio ar y safonau proffesiynol er mwyn nodi'ch anghenion unigol neu'ch anghenion cyffredin. |